**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-776
Ein cyf/Our ref KS/02918/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

3 Medi 2017

Annwyl David

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 10 Awst ynghylch y ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod a choffáu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn eleni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n gweithio o fewn i fframwaith strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Uned Prif Ddigwyddiadau wedi ariannu digwyddiadau a gweithgareddau, a drefnwyd gan bartneriaid, fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant llenorion nodedig o Gymru, fel Roald Dahl a Dylan Thomas. Mae gan y ddau awdur yma broffiliau rhyngwladol ac roedd y rhaglenni cysylltiedig yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig (http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/major-events/?skip=1&lang=cy ).

Wrth gwrs, byddai'r Uned Prif Ddigwyddiadau yn ystyried cynigion gan bartneriaid neu grwpiau eraill ar ffyrdd o ddathlu ffigurau eiconig eraill, megis William Williams, Pantycelyn – yn enwedig yn ystod *Blwyddyn Chwedlau 2017*. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod wedi cymryd sawl blwyddyn i gwblhau'r trefniadau ar gyfer dathliadau canmlwyddiant Roald Dahl a Dylan Thomas.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.